***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2001 Rhif 1396 (Cy.91)

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

## Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Diwygio) (Cymru) 2001

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | - - | *29 Mawrth 2001* |
| *Yn dod i rym* | - - | *1 Ebrill 2001* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 41, 42, 43, a 126(4) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977 ((**1**)) drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

### Enwi, cychwyn, dehongli a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Diwygio) (Cymru) 2001 a deuant i rym ar 1 Ebrill 2001.

(2) Yn y Rheoliadau hyn —

ystyr "y prif Reoliadau" yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) 1992(**2**)**;**

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru yn unig.

(**1**) 1977 p. 49 ("Deddf 1977"); gweler adran 128(1), fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Gofal Cymunedol 1990 (p.19) ("Deddf 1990"), adran 26(2)(g) ac (i) a chan Ddeddf Iechyd 1999 (p.8) ("Deddf 1999"), Atodlen 4, paragraff 38(2) i gael y diffiniadau o "prescribed" a "regulations".
Diwygiwyd adran 41 gan Ddeddf y Gwasanaethau Iechyd 1980 (p. 53), ("Deddf 1980"), adrannau 1 ac 20(1) ac Atodlen 1, paragraff 53 ac Atodlen 7, gan O.S.1985/39, erthygl 7(13); gan Ddeddf 1990, Atodlen 9, paragraff 18(1) ac Atodlen 10; gan Ddeddf Cynhyrchion Meddyginiaethol: Rhagnodi gan Nyrsys etc.1992 (p.28), adran 2; gan Ddeddf Awdurdodau Iechyd 1995 (p. 17) ("Deddf 1995"), Atodlen 1, paragraff 29; a chan Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gofal Sylfaenol) 1997 (p. 46), ("Deddf 1997"), Atodlen 2, paragraff 13.
Amnewidiwyd adran 42 gan Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Diwygio) 1986 (p. 66), adran 3(1); ei hestyn gan Ddeddf Iechyd a Meddyginiaethau 1988 (p. 49), adran 17; a'i diwygio gan O.S.1987/2202, erthygl 4; gan Ddeddf 1990, adran 12(3); a chan Ddeddf 1995, Atodlen 1, paragraff 30.
Diwygiwyd adran 43 gan Ddeddf 1980, Atodlen 9, paragraff 18(2); gan Ddeddf 1995, Atodlen 1, paragraff 31; a chan Ddeddf 1997, adran 29(1) ac Atodlen 2, paragraff 14.
Diwygiwyd adran 126(4) gan Ddeddf 1990, adran 65(2) a chan Ddeddf Iechyd 1999, Atodlen 4, paragraff 37(6).
Cafodd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adrannau 41, 42, 43 a 126(4) o Ddeddf 1977 eu trosglwyddo i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999, O.S.1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, fel y'i diwygiwyd gan adran 66(5) o Ddeddf 1999.

(**2**) O.S.1992/662; dyma'r offferynnau diwygio perthnasol O.S.1993/2451, 1994/2402, 1995/644, 1996/698, 1998/681 a 2224 a 1999/696.

**Diwygio rheoliad 2 o'r prif Reoliadau**

**2** Yn Rheoliad 2(1) o'r prif Reoliadau (dehongli) yn lle'r diffiniad o "Charges Regulations" rhoddir y diffiniad canlynol yn y lle priodol —

""Charges Regulations" means the National Health Service (Charges for Drugs and Appliances) (Wales) Regulations 2001(**3**);"

**Diwygio Rhan II o Atodlen 2 i'r prif Reoliadau**

**3.**—(1) Caiff Rhan II o Atodlen 2 i'r prif Reoliadau (telerau gwasanaeth ar gyfer fferyllwyr), ei diwygio yn unol â'r darpariaethau canlynol.

(2) Ym mharagraff 3 (darparu gwasanaethau fferyllol)—

(a) yn is-baragraff (1C)(a)(i)(**4**) dilëwch y geiriau "any of sub-paragraphs (d) to (g) of regulation 6(1)" a mewnosodwch y geiriau "regulation 8(1)";

(b) yn is-baragraff (1C)(a) dilëwch y geiriau " (d), (e) or (f) of regulation 6(1)" a mewnosodwch y geiriau "(a), (b), (c), (d) or (e) of regulation 8(1)".

**Diwygio Rhan III o Atodlen 2 i'r prif Reoliadau**

**4.**—(1) Caiff Rhan III o Atodlen 2 i'r prif Reoliadau (telerau gwasanaeth ar gyfer meddygon sy'n darparu gwasanaethau fferyllol) ei diwygiio yn unol â'r darpariaethau canlynol.

(2) Ym mharagraff 11B(**5**)—

(a) yn is-baragraff (a)(i) dilëwch y geiriau "any of sub-paragraphs (d) to (g) of regulation 6(1)" a mewnosodwch y geiriau "regulation 8(1)";

(b) yn is-baragraff 11B(a) dilëwch y geiriau "(d), (e) or (f) of regulation 6(1)" a mewnosodwch y geiriau "(a), (b), (c), (d) or (e) of regulation 8(1)".

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**6**)

*D Elis Thomas*
Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

29 Mawrth 2001

(**3**) O.S.2001/1358 (W.86)
(**4**) Mewnosodwyd is-baragraff (1C) gan O.S.1996/696.
(**5**) Mewnosodwyd paragraff 11B gan O.S.1999/696.
(**6**) 1998 p.38

---

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio ymhellach Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) 1992 ("y prif Reoliadau") sy'n rheoli trefniadau sydd i'w gwneud gan Awdurdodau Iechyd ar gyfer darparu gwasanaethau fferyllol o dan Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd 1977 mewn perthynas â'u hardaloedd.

Mae **rheoliad 2** yn mewnosod diffiniad newydd o "Charges Regulations" yn rheoliad 2(1) (dehongli) o'r prif Reoliadau.

Mae **rheoliad 3** yn estyn yr amgylchiadau lle y mae'n ofynnol i fferyllydd ofyn i berson sy'n cyflwyno archeb ar gyfer cyffuriau a chyfarpar o dan baragraff 3(1) o delerau gwasanaeth y fferyllydd i ddarparu tystiolaeth benodedig i gadarnhau ceisiadau penodol sy'n ymwneud ag esemptiadau rhag ffioedd sy'n ddyledus o dan Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd am Gyffuriau a Chyfarpar) (Cymru) 2001.

Mae **rheoliad 4** yn yr un modd yn diwygio'r gofynion i feddygon ac awdurdod i ddarparu gwasanaethau fferyllol ar gyfer claf o dan reoliad 20 o'r prif Reoliadau.